Gwneud Pethau'n Iawn dros Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru
Rheolau ymgeisio'r gystadleuaeth

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Mae'r gystadleuaeth yn agored i bobl ifanc 11- 25 oed yng Nghymru.

Y dyddiad cau ar gyfer y cynigion yw **dydd Gwener 15 Ionawr 2010**.

Dylai pob cynnig gael ei gyflwyno gan ddefnyddio'r ffurflen sydd wedi'i darparu. Postiwch eich cynnig i:

Gwneud Pethau'n Iawn, d/o Working Word PR, Llawr 9, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW Neu anfonwch neges e-bost at info@workingwordpr.com

Drwy ymgeisio yn y gystadleuaeth, mae'r ymgeisydd yn cytuno i'r holl delerau ac amodau.

- Ni ellir derbyn cyfrifoldeb dros gynigion sy'n cael eu colli a does dim modd dychwelyd y cynigion.
- Ni chaniateir i deuluoedd gweithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i hasiantau ymgeisio yn y gystadleuaeth.
- Un o amodau ymgeisio yw bod rhaid i'r ymgeiswyr gytuno neu (os ydyn nhw o dan 16 oed) sicrhau'r caniatâd angenrheidiol i gael tynnu eu llun, eu ffilmio neu eu recordio mewn cysylltiad â'r wobr neu â chyflwyno'r wobr.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac unrhyw sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r gwobrau yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r ffotograffau, y ffilmiau neu'r recordiadau hynny at ddibenion hyrwyddo.

Wrth ymgeisio yn y gystadleuaeth, rydych chi'n cytuno na fyddwch yn gwneud y canlynol:

- Cyflwyno unrhyw ddeunydd heblaw eich gwaith chi'ch hun
- Cyflwyno anwiredd neu gamliwiad a allai niweidio unrhyw drydydd parti neu beri tramgwydd iddyn nhw
- Cyflwyno unrhyw ddeunydd sy'n anghyfreithlon, yn sarhaus neu'n amhriodol mewn modd arall.

Bydd yr holl ddeunyddiau a fydd yn cael eu cyflwyno neu eu cynhyrchu fel rhan o'r gystadleuaeth yn cael eu trwyddedu i Lywodraeth Cynulliad Cymru a hynny ar drwydded fyd-eang sydd heb freindaliadau ac nad yw'n unigryw am byth yn unol â'r telerau a'r amodau hyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r testun, y delweddau a/neu'r recordiadau yn gyfan gwbl neu'n rhannol ym mha ffordd bynnag y mae'n credu ei bod yn addas (a all fod heb gysylltiad â'r gystadleuaeth), gan gynnwys y we, heb ganiatâd yr ymgeisydd a heb dalu i'w defnyddio fel hyn

Dim ond i'r graddau y bydd hynny'n angenrheidiol ar gyfer y gystadleuaeth y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio manylion personol, a hynny o dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1988 bob amser.

Panel a benodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fydd yn beirniadu'r cynigion. Bydd penderfyniad y panel yn derfynol.

Does dim modd cael arian parod yn lle'r gwobrau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw'r hawl i newid manylion y gwobrau ar unrhyw adeg.

Caiff enwau'r enillwyr a goreuon y gweddill eu cyhoeddi erbyn dydd Gwener 26 Chwefror 2010. Caiff y manylion eu gosod ar wefan www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Byddwn yn cysylltu â'r enillwyr i drefnu cyflwyno'r gwobrau.

Does dim modd gohebu na rhoi cyfweliad ar unrhyw fater sy'n codi o'r gystadleuaeth hon.

Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi enwau'r unigolion wrth ochr unrhyw ddeunyddiau wrth eu defnyddio.

Dylai unrhyw ymholiadau gael eu hanfon at info@workingwordpr.com